Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Aberconwy**
**Morfa Drive**
**Conwy**
**LL32 8ED**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2012**

**Gan**

**Mr Peter Harris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:
Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Aberconwy yn ysgol gyfun Saesneg ei chyfrwng ar gyfer bechgyn a merched rhwng 11 ag 18 a chanddi 975 o ddisgyblion, gan gynnwys 181 yn y chweched dosbarth o’i gymharu ag 1140 o ddisgyblion pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf. Dros y cyfnod hwn mae niferoedd yn y chweched dosbarth wedi dyblu.

Mae'r ysgol wedi ei lleoli yn nhref Conwy.

Mae gan ychydig dros 15% o'r dysgwyr yr hawl i brydau ysgol am ddim o'i gymharu â chyfartaledd Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd o 17%. Ar hyn o bryd, mae 1% o'r dysgwyr yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae derbyniad yr ysgol yn cynrychioli'r ystod lawn o allu. Mae 1.5% o'r disgyblion yn dal datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn mymryn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Mae uned cefnogi dyslecsia'r awdurdod lleol wedi ei leoli yn yr ysgol.

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, mae gan 24% o'r dysgwyr oed darllen sydd fwy na chwe mis o dan eu hoed cronolegol.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd yn 2004. Mae'r uwch dîm arweinyddol presennol yn cynnwys dau ddirprwy bennaeth a phedwar pennaeth cynorthwyol. O'r tîm arweinyddol presennol, roedd y pennaeth a tri o'r penaethiaid cynorthwyol yn eu swyddi pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf.

Yn 2004, cafodd yr ysgol adeiladau newydd a adeiladwyd fel rhan o brosiect Menter Cyllid Preifat.

Mae'r ysgol yn cydweithio gydag ysgolion uwchradd eraill a'r coleg addysg bellach lleol i wella'r ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Yn 2011-2012, y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Aberconwy yw £4,779 sydd yn cymharu gydag uchafswm o £5,070 ac isafswm o £4,268 ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghonwy. Mae cyllideb fesul disgybl yr ysgol y trydydd uchaf o'r saith o ysgolion uwchradd yng Nghonwy.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae Ysgol Aberconwy yn ysgol dda oherwydd bod:

- safonau cyrhaeddiad cyffredinol yn dda ac yn gwella;
- cynllunio cwricwlwm arloesol yn galluogi disgyblion i lwyddo;
- asesu a thracio cynnydd disgyblion yn effeithiol iawn;
- yr arweiniad a'r mentora o ddisgyblion yn dda iawn;
- yr amgylchedd ddysgu yn gadarnhaol; a
- chaiff yr ysgol ei harwain yn dda.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwelliant yn dda oherwydd bod:

- arweinwyr a rheolwyr ag ymwybyddiaeth eglur o'r meysydd ar gyfer gwelliant;
- y diwylliant o fonitro a hunan arfarnu wedi ei sefydlu'n dda yn nhrefniadaeth yr ysgol;
- data yn cael ei ddefnyddio'n dda ar gyfer gosod a monitro targedau;
- cynllunio ar gyfer gwelliant o ansawdd dda;
- gan yr ysgol hanes diweddar o welliant; a'r
- cynnydd a wnaed ers yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Aberconwy:

A1 parhau i wella'r safonau a gyflawnir gan y disgyblion;

A2 mynd i'r afael â'r diffygion yn yr addysgu a ddynodwyd yn yr adroddiad hwn;

A3 parhau i wella lefelau presenoldeb; a

A4 cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau iaith yn y Gymraeg o amgylch yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Aberconwy yn cynhyrchu cynllun gwelliant bydd yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

Mae'r holl argymhellion hyn wedi eu dynodi yng nghynlluniau presennol yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae deilliannau yn gwella ac mae'r ysgol yn perfformio'n uwch na'r disgwyliadau yng nghyfnod allweddol 3 ac yng nghyfnod allweddol 4.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad y disgyblion yn dda. Yn 2011 yng nghyfnod allweddol 3, roedd y dangosydd pynciau craidd yn uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg ar y meincnod prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yr ysgol yn y pynciau di-graidd yng nghyfnod allweddol 3 hefyd yn dda ac roedd yn uwch na'r cyfartaledd o'i gymharu gydag ysgolion tebyg.

Mae perfformiad disgyblion hefyd yn dda yng nghyfnod allweddol 4. Yn 2011, roedd perfformiad yn yr holl o'r prif ddangosyddion yn ogystal ag ym mhob un o'r pynciau craidd, yn uwch na'r cyfartaledd.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad disgyblion ôl-16 yn adlewyrchu tueddiad parhaus tuag at i fyny. Mae perfformiad ar y trothwy lefel 3 bellach yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae merched yn perfformio'n well na'r bechgyn yn y dangosydd pynciau craidd ac yn y tri phwnc craidd yn unigol. Mewn Saesneg, mae'r ysgol wedi llwyddo lleihau'r bwlch mewn perfformiad cymharol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae bechgyn ar y cyfan yn perfformio'n well na'r merched ar wahân i mewn Saesneg ar lefel 2.

Mae cyfran gynyddol o ddisgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd yng nghyfnodau allweddol 3 a 4.

Yn y ddwy flynedd diwethaf, nid oes unrhyw ddisgybl wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster.

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da ym mhob cyfnod allweddol wrth gaffael y medrau a'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu dysgu. Yn y mwyafrif o'r gwersi a arsylwyd, cyflawnodd bron pob disgybl safonau da, ac mewn ychydig o'r gwersi hyn cyflawnodd disgyblion safonau rhagorol. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o bob oed a gallu fedrau cyfathrebu sydd wedi eu datblygu'n dda. Mae ganddynt fedrau darllen ac ysgrifennu da. Siarada'r mwyafrif o ddisgyblion yn hyderus. Mae llawer yn mynegi eu hunain yn eglur a meddylgar gan ddefnyddio geirfa gyffredinol a phwnc benodol priodol.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda. Mae llawer o'r disgyblion mwy galluog yn ysgrifennu i safon uchel. Maent yn gorffen eu gwaith ac mae llawer yn rhoi ymatebion estynedig ac ystyriol. Mewn llawer o feysydd y cwricwlwm, defnyddia'r disgyblion eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth yn effeithiol.

Ar y cyfan, gwna'r disgyblion gynnydd gwerthfawr wrth ddatblygu'r medrau sydd angen arnynt i ddysgu'n effeithiol. Arddangosa'r mwyafrif o ddisgyblion fedrau gwrando da gan ymateb yn dda i gwestiynau gan eu hathrawon. Fodd bynnag, mewn lleiafrif bychan o'r dosbarthiadau a arsylwyd, roedd diffygion yng ngallu'r disgyblion i wrando.

Gweithia'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda mewn parau ac mewn grwpiau i archwilio syniadau ac i ddatblygu eu dealltwriaeth. Mae llawer yn datblygu eu medrau dadansoddi yn dda ac yn trosglwyddo medrau yn rhugl o un cyd-destun i'r llall.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhoi ystyriaeth dda iawn i'w dysgu. Gyda help eu hathrawon, maent yn asesu gwaith eu hunain yn gywir a gofalus. Maent yn ymwybodol o gryfderau a gwendidau eu hunain ac yn gwybod sut i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gosod targedau heriol i'w hunain mewn ymateb i'r disgwyliadau a'r targedau uchel mae'r rhan fwyaf o athrawon yn eu gosod.

Mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3 yn dda iawn ac yn dda yng nghyfnod allweddol 4. Yng nghyfnod allweddol 3, mae wedi bod yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf. Mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4, mae mwyafrif helaeth o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, y tu allan i wersi Cymraeg, ychydig iawn o ddefnydd a wna'r disgyblion o'r Gymraeg.

**Lles: Da**

Mae bron yr holl ddisgyblion yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol o ganlyniad i'r cymorth personol da iawn a dderbyniant. Mae'r ysgol yn delio'n dda gyda'r ychydig achosion o fwlian a geir. Mae lefelau cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol yn uchel gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at fyw yn iach.

Ar y cyfan, mae ymddygiad yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais ac yn dangos lefelau uchel o barch tuag at eraill. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, roedd lleiafrif o ddisgyblion yn clebran oddi ar y dasg.

Er bod cyfraddau presenoldeb wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, o'i gymharu gydag ysgolion tebyg, mae presenoldeb yn is na'r cyfartaledd. Mae bron yr holl ddisgyblion yn brydlon i'w gwersi.

Mae disgyblion yn cyfranogi'n gyson mewn gweithgareddau cymunedol ac yn llwyddo codi symiau sylweddol o arian ar gyfer elusennau. Mae'r disgyblion hyn yn ennill ystod eang o brofiad, sydd yn datblygu eu hyder yn effeithiol.

Gwna nifer arwyddocaol o grwpiau sy'n cynrychioli'r disgyblion gyfraniadau gwerthfawr tuag at fywyd ysgol. Maent yn cyfranogi ar bob lefel o wneud penderfyniadau.

Arddangosa'r rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau cymdeithasol a bywyd da iawn. Mae gan y mwyafrif ymagwedd gadarnhaol iawn tuag at eu gwaith. Mae gan y disgyblion y medrau angenrheidiol i symud ymlaen yn hyderus at y cyfnod nesaf yn eu datblygiad.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn diwallu'r holl ofynion statudol, gan gynnwys y Llwybrau Dysgu 14-19. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r cwricwlwm yn adeiladu’n systematig a gwaith yr ysgolion cynradd partner.

O Flwyddyn 9 ymlaen, diwellir anghenion y dysgwyr mewn modd arloesol iawn. Ynghyd ag astudio'r pynciau craidd, mae'r holl ddisgyblion yn astudio ac yn cyflawni

dau gwrs TGAU ym mhob un o flynyddoedd 9, 10 ac 11. Mae hyn yn llwyddo ymrwymo, herio ac ysgogi disgyblion i gyflawni'n dda.

Bob hanner tymor, mae'r ysgol yn atal ei chwricwlwm arferol am ddiwrnod cyfan er mwyn darparu profiadau buddiol i'r dysgwyr bydd yn gwella a datblygu eu sgiliau. Mae hwn yn nodwedd dda sydd yn galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn dysgu y tu allan i'r ysgol. Yn ychwanegol, mae ystod dda o gyfleoedd allgyrsiol. Mae profiadau gwaith buddiol a lleoliadau yn y gymuned yn ehangu a chyfoethogi'r profiadau sydd ar gael.

Mae'r cynnydd mewn niferoedd yn y chweched dosbarth yn ganlyniad i'r gweithio consortiwm sydd yn caniatáu'r ysgol i gynnig ystod eang iawn o lwybrau i'r myfyrwyr.

Yng nghyfnodau 3 a 4, mae trefniadau cynhwysfawr yn galluogi disgyblion i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn llwyddiannus ar draws yr holl o'u pynciau. Yn y chweched dosbarth, mae tua hanner y myfyrwyr yn datblygu'r medrau hyn fel rhan o'u Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae'r trefniadau ar gyfer datblygu addysg ar ddatblygiad cynaliadwy yn briodol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer deall materion byd-eang yn gyson dda.

Gwna'r ysgol drefniadau boddhaol ar gyfer addysgu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig o'r cwricwlwm.

Ni chaiff mesurau i annog dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg y tu allan i'w gwersi iaith eu dilyn gyda digon o rym.

**Addysgu: Digonol**

Yn y mwyafrif o wersi, mae gwybodaeth bynciol da a rhoi sylw i anghenion disgyblion unigol yn sicrhau fod gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio yn mynd rhagddynt ar gyflymder bywiog. Mae athrawon yn hyrwyddo lefelau da ac ar brydiau lefelau da iawn o gymhelliant, ymrwymiad a chanolbwyntio trwy amrywiaeth o dasgau heriol a da eu strwythur lle mae'r disgyblion yn gyfranogwyr gweithredol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran ymdrech ac ymddygiad. Mae athrawon yn monitro dysgu disgyblion yn gyson ac yn darparu cymorth unigol o ansawdd pan fod angen. Mae cwestiynau treiddgar yn gwneud i ddisgyblion feddwl, cymhwyso'r hyn maent wedi dysgu a chyfiawnhau eu rhesymu. Yn y gwersi llwyddiannus hyn, mae disgyblion yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.

Mewn lleiafrif o wersi, mae diffygion pwysig. Nid yw athrawon yn darparu ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion. Mae diffyg her, ystod gyfyng o ddulliau a gweithgareddau a chyflymder araf o ran y dysgu. Nid yw'r rheolaeth dosbarth yn gadarn a chaniateir clebran oddi ar y dasg i effeithio'n negyddol ar ddysgu eraill.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio llyfrau'n rheolaidd ac yn darparu adborth manwl cywir i ddisgyblion ar sut i wella. Darperir cyfleoedd aml i ddisgyblion i hunan asesu eu gwaith ac i sefydlu targedau gwelliant.

Mae disgyblion yn hyddysg iawn o'u cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod eu targedau personol a'r hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn eu cyflawni. Mae systemau effeithiol iawn yn tracio cynnydd, yn dynodi tangyflawniad yn syth ac yn bwydo'r monitro a'r gefnogaeth o ansawdd dda a ddarperir ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'r adolygiad mynych hwn o dargedau gyda disgyblion wedi cael effaith arwyddocaol ar gyflawniad disgyblion.

Mae adroddiadau interim bob hanner tymor yn darparu gwybodaeth gryno reolaidd i rieni ar gynnydd ac ymdrech eu plentyn.  Caiff rhieni eu hysbysu'n dda hefyd trwy'r cyfarfodydd rhieni blynyddol a'r adroddiadau diwedd blwyddyn.  Yn y rhan fwyaf o bynciau darperir awgrymiadau penodol ar gyfer gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae gweithgareddau a phrofiadau buddiol yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion gan gynnwys eu datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus trwy ystod eang o weithgareddau yn ymwneud â ffitrwydd.

Mae strategaethau cefnogi rhagorol yn darparu arweiniad a mentora personol da iawn.  Mae'r cryfderau hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at wella cyflawniad, hyder a pherthnasau.

Darpara asiantaethau allanol gefnogaeth helaeth i ddisgyblion i'w galluogi i wneud dewisiadau doeth.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelwch.

Derbynia disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gefnogaeth unigol a gynlluniwyd yn dda trwy raglenni penodol a gynlluniwyd i ddiwallu eu hanghenion. Defnyddir ystod effeithiol o brofion i ddynodi cyrhaeddiad ac asesu cynnydd.

Mae disgyblion sydd yn mynychu darpariaeth yr awdurdod lleol ar gyfer dyslecsia yn yr ysgol yn derbyn gwaith sydd wedi ei gynllunio'n dda a'i addasu i ddiwallu eu hanghenion.

Mae cynorthwywyr dosbarth a gwasanaethau arbenigol yn darparu cefnogaeth werthfawr.

Mae cynlluniau unigol disgyblion yn awgrymu strategaethau ac adnoddau addas i ddiwallu targedau eglur.  Mae'r mwyafrif o athrawon yn addasu gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau fod darpariaeth yn y dosbarthiadau prif ffrwd yn cydweddu'r anghenion a ddynodwyd ar gyfer y disgyblion.  Fodd bynnag, nid oes unrhyw broses ffurfiol rheolaidd i arfarnu effeithiolrwydd a chymhwysiad y ddarpariaeth addasedig o fewn dosbarthiadau prif ffrwd.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae ethos yr ysgol yn un o gymuned gynhwysol a gofalgar.  Ceir ymroddiad cryf tuag at gynnig cyfartaledd cyfle a mynediad i holl agweddau o fywyd ysgol waeth beth yr anabledd, hil neu ryw.

Mae'r ysgol yn gweithredu'n gydunol er mwyn gwella perfformiad disgyblion ar draws yr holl alluoedd a chefndiroedd.  Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r modd caiff eu safbwyntiau eu hystyried.  Mae rhieni a dysgwyr yn gwerthfawrogi'r ystyriaeth a rhoddir i les a llwyddiant disgyblion unigol.  Gweithia'r ysgol yn llwyddiannus i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth, ac mae'n weithredol wrth annog parch tuag at hawliau dynol a gwerthfawrogi gwahanol ddiwylliannau. Mae perthnasau'n dda iawn a chânt eu nodweddu gan barch y naill at y llall.

Mae'r holl o'r adeiladau ac ystafelloedd eang o ansawdd rhagorol.  Mae'r dosbarthiadau a'r swyddfeydd o safon uchel.  Mae'r cyfleusterau ar gyfer chwaraeon a gemau yn ardderchog.

Ceir amrediad eang o adnoddau, yn arbennig ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Ar draws yr ysgol, mae arddangosfeydd o waith a chyflawniadau disgyblion o safon uchel.

Caiff yr holl o adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n dda iawn.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r tîm arweinyddol yn cyfathrebu disgwyliadau uchel a chyfeiriad strategol eglur sydd wedi effeithio'n gadarnhaol ar godi safonau. Mae'r holl staff yn rhannu gweledigaeth, gwerthoedd a phwrpas cyffredin.

Mae rolau a chyfrifoldebau'r timoedd rheoli uwch a chanolig wedi eu diffinio'n dda ac yn ffocysu'n effeithiol ar wella'r ysgol.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn cyflawni eu rolau'n dda wrth osod targedau heriol a realistig ar gyfer eu hunain ac eraill trwy ddadansoddiad cyson a manwl o ddata.

Mae trefniadau rheoli perfformiad strwythuredig yn dynodi cyfleoedd datblygiad proffesiynol addas i'r holl staff.

Cyflawna'r llywodraethwyr eu dyletswyddau statudol yn briodol ond nid ydynt yn ddigon gwybodus am safonau addysgu yn yr ysgol.

Caiff yr ariannu ei fonitro a'i archwilio'n drylwyr gan reolwr busnes yr ysgol ac is-bwyllgor y corff llywodraethu.

Rhydd yr ysgol ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, yn enwedig mewn perthynas ag adeiladu partneriaethau effeithiol o fewn y ddarpariaeth Llwybrau Dysgu 14-19.

Mae arweinwyr yn trafod a chydweithio'n dda gyda staff mewnol ac asiantaethau allanol.

**Gwella ansawdd: Da**

Ceir system drylwyr o hunan arfarnu sydd yn tynnu ar ystod o wybodaeth uniongyrchol i wneud arfarniadau am berfformiad yr ysgol. Yn benodol, mae arweinwyr uwch yn dadansoddi data arholiadau ac asesiadau arall mewn dull manwl iawn. O ganlyniad, mae arweinwyr uwch yn adnabod yr ysgol yn dda iawn ac yn ymwybodol o'r meysydd i'w datblygu. Mae rheolwyr canol yn ffocysu'n gynyddol ar yr hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn gwella eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae'r gweithdrefnau o hunan arfarnu a chynllunio datblygiad yn rhan reolaidd o drefniadaeth yr ysgol a defnyddia'r arweinwyr uwch y wybodaeth a geir o hunan arfarnu i gynhyrchu cynllun gwella ysgol manwl. Mae'r ddogfen fuddiol hon yn dynodi targedau, cyfrifoldebau a thaflen amser penodol ar gyfer gweithredu. Mae hefyd yn nodi'r meini prawf ar gyfer gwerthuso'r strategaethau gwelliant.

Mae proses rheoli perfformiad yr ysgol yn sicrhau caiff cyflawniadau'r flwyddyn holl aelodau'r staff addysgu a chefnogi eu hadolygu yn erbyn nodau heriol a thargedau cynnydd disgyblion.

Gwnaeth yr ysgol gynnydd da wrth fynd i'r afael â'r materion allweddol o'r arolygiad diwethaf.

Ceir diwylliant buddiol o gydweithio rhwng athrawon o fewn yr ysgol a gydag ysgolion eraill ac mae cymunedau dysgu proffesiynol yn mynd i'r afael â nifer o faterion yn ymwneud â datblygiad staff.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaeth strategol fuddiol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at ehangu'r ystod o ddewisiadau i ddisgyblion ac wedi bod yn llwyddiannus wrth godi safonau. Mae'r ysgol wedi cydweithio'n glos gydag ysgolion uwchradd cyfagos a'r coleg lleol i gynyddu mynediad i adnoddau a darpariaeth cwricwlwm priodol. Mae gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer sicrhau ansawdd.

Sefydlwyd cysylltiadau cryf gyda'r ysgolion cynradd partner. Mae'r ysgol yn buddsoddi'n helaeth wrth annog dull cydweithiol tuag at gynllunio pontio a chyflwyno'r cwricwlwm er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gyda sefydliadau hyfforddi athrawon ac ystod o asiantaethau amlddisgyblaethol.

Mae cyfathrebu gyda rhieni yn effeithiol a cheir presenoldeb da yn y nosweithiau rhieni.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae trefniadau cyllidebol systematig a chywir o fewn yr ysgol. Caiff gwariant ei fonitro'n rheolaidd a grymus a'i ddynodi i ddiwallu'r blaenoriaethau a ddynodir o fewn y cynllun gwella ysgol. Dynodir digon o adnoddau'n gyfartal i adrannau trwy ddadansoddiad grymus o anghenion. Caiff y rhain eu rheoli'n dda.

Caiff y safle ei rheoli'n effeithiol iawn a'i gynnal a'i gadw'n dda. Ceir system effeithiol ar gyfer dynodi ac osgoi gwariant dianghenraid ar reoli safle.

Mae lefelau staffio yn briodol i addysgu holl agweddau o gwricwlwm yr ysgol. Defnyddia athrawon eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n effeithiol ac mae hyn yn cyfrannu tuag at godi safonau.

Mae'r ysgol yn diwallu gofynion statudol o ran baich gwaith athrawon. Mae cynorthwywyr addysgu a staff atodol yn cefnogi disgyblion yn llwyddiannus yn eu dysgu ac yn gaffaeliad gwerthfawr i'r ysgol.

O ganlyniad i'r deilliannau a gyflawnir gan y dysgwyr, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Yn 2011, yng nghyfnod allweddol 3, roedd y dangosydd pynciau craidd yn uwch na'r cyfartaledd o ran ysgolion tebyg ar y meincnod prydau ysgol am ddim. Mewn gwyddoniaeth dros y tair blynedd diwethaf, mae disgyblion wedi perfformio i safon uchel ac wedi bod yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg ar lefel 5 ac yn uwch. Mewn Saesneg a mathemateg, roedd perfformiadau disgyblion yn uwch na'r cyfartaledd mewn dwy allan o'r tair blynedd diwethaf.

Mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, roedd perfformiad ar lefel 6 ac uwch yn uwch na'r cyfartaledd yn 2011.

Dros y tair blynedd diwethaf, roedd perfformiad cyffredinol yr ysgol yn y pynciau di-graidd yng nghyfnod allweddol 3 hefyd yn dda. Yn y rhan fwyaf o bynciau, mae perfformiad wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd o'i gymharu gydag ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion yn dda. Yn 2011, roedd y trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg a'r dangosydd pynciau craidd, a'r trothwy lefel 1, yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg ar y meincnod prydau ysgol am ddim. Roedd perfformiad ar y trothwy lefel 2 yn yr 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad disgyblion ôl-16 yn adlewyrchu tueddiad parhaus tuag at i fyny.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad bechgyn a merched yn fwy na chyfartaleddau Cymru a'r teulu mewn mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pynciau craidd. Yng nghyfnod allweddol 4, er bod bechgyn yn perfformio'n well na merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae merched yn perfformio'n well na'r bechgyn mewn Saesneg, gyda'r gwahaniaeth yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim a'r rhai sydd heb yr hawl wedi gostwng dros y cyfnod ers i'r ysgol gael eu harolygu diwethaf. Mae cyfrannau cynyddol o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3 ac yng nghyfnod allweddol 4.

Yn 2011, parhaodd 88% o'r disgyblion mewn addysg llawn amser ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r un ar gyfer Cymru.

Nid oedd 4% o'r disgyblion a adawodd yn haf 2011 mewn addysg, hyfforddiant na swyddi. Mae'r ffigur hwn llawer gwell na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn y ddwy flynedd diwethaf, nid oes unrhyw ddisgybl wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster.

Mae llawer o ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy galluog, yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddatblygu eu medrau iaith yn y Gymraeg. Maent yn darllen ac ysgrifennu yn dda ar lefel briodol ac yn ynganu'r iaith gyda hyder. Yng nghyfnod allweddol 3, mae canran y dysgwyr sydd yn cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Cymraeg ail iaith wedi bod yn gyson yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg am y tair blynedd diwethaf. Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn dilyn y cwrs TGAU llawn mewn Cymraeg ail iaith ac yn 2011, llwyddodd pob un i ennill y cymhwyster.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhawyd yr holiaduron gan 43 o rieni.

Cytunodd pob un bod staff yr ysgol yn disgwyl i ddisgyblion weithio'n galed ac i roi o'u gorau.

Mae llawer o rieni'n adrodd fod eu plentyn yn hoffi'r ysgol. Adrodda'r rhan fwyaf fod eu plentyn yn gwneud cynnydd da. Dywed llawer y rhoddir cefnogaeth briodol i anghenion penodol. Mae llawer yn adrodd fod y gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn gaiff ei ddysgu yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn hapus gyda dulliau'r ysgol i'w hysbysu am gynnydd eu plentyn.

Cytuna llawer o'r rhieni fod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddatblygu fel person, i ymgymryd â chyfrifoldeb ac i ddod yn fwy aeddfed. Caiff eu plant eu trin gyda pharch a'u paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu. Mae llawer yn adrodd fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'u bod yn teimlo'n gyfforddus i droi at yr ysgol gydag unrhyw gwestiynau neu awgrymiadau.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhawyd yr holiaduron gan 239 o ddisgyblion.

Adrodda'r rhan fwyaf eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod eu hathrawon yn eu helpu i roi o'u gorau yn eu gwaith ac yn annog disgyblion i ymgymryd â chyfrifoldeb. Maent bron i gyd yn dweud fod yr ysgol yn le diogel i ddysgu. Adrodda llawer y cânt eu haddysgu i fod yn iach a dywed y rhan fwyaf y cânt eu trin gyda pharch ac y cânt eu parchu gan aelodau o'r staff.

Cytuna llawer for yr ysgol yn rhoi cyngor da wrth ddewis pynciau a'u bod yn teimlo eu bod wedi eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn adrodd fod yno rhywun i wrando ar eu safbwynt pan eu bod yn bryderus.

Teimla'r mwyafrif o ddisgyblion fod yr ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i'w safbwyntiau.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Peter Harris | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| David Hughes | Arolygydd Tîm |
| Andrew Herdman | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Amanda Harrison | Arolygydd Cymheiriaid |
| David Young | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**
Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |